

Anogwch eich disgyblion fod yn Dditectifs Adeiladau drwy ofyn cwestiynau am adeiladau hanesyddol yn eich ardal leol.

Pryd adeiladwyd yr adeilad?

Pwy adeiladodd yr adeilad?

Pam yr adeiladwyd yr adeilad?

Pa ddefnyddiau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu?

O ble ddaeth y defnyddiau?

A oedd y defnyddiau ar gael yn lleol neu a chawson nhw eu cludo i'r ardal?

Sut byddai'r defnyddiau wedi cael eu cludo yno?

Ydy'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol bwrpasau dros y blynyddoedd?

Beth ydym yn gwybod am y bobl oedd yn byw yno?

Ble oeddent yn gweithio?

Ydy enw'r adeilad neu enw'r stryd yn gallu datgelu rhywbeth am yr adeilad?

Ydych chi'n credu bod cysylltiad rhwng yr adeilad ag unrhyw adeiladau eraill yn yr ardal, naill ai heddiw neu yn y gorffennol?

Ydy'r adeilad yn chwarae rhan allweddol yn ein cymuned, naill ai nawr neu yn y gorffennol?

A allwn weld unrhyw nodweddion arbennig ar yr adeilad sy'n rhoi cliwiau i ni am bwy oedd yn byw yno neu sut y defnyddiwyd yr adeilad yn y gorffennol?

Oes rhywun yn yr ardal leol a fyddai yn gallu dweud mwy wrthym am yr adeilad?

Oes yna luniau o'r adeilad yn dangos sut oedd yn edrych yn y gorffennol? Sut mae wedi newid? Pa nodweddion sydd wedi cael eu diogelu neu eu cadw?

